# Cynllun Gweithredu ar gyfer Cynefinoedd: Tir Amaethyddol yr Iseldir

## *Datganiad gweledigaeth*

Mae'r cynllun gweithredu cyfunol hwn ar gyfer cynefinoedd yn cynnwys: ffiniau caeau traddodiadol, cyrion caeau âr, a pherllannau traddodiadol. (mae gwybodaeth bellach i'w chael yn y datganiad cryno). Gweledigaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro ydy gweld cynnal a chadw'r ystod lawn y nodweddion llinellol traddodiadol (ffiniau caeau, cyrion caeau âr) sydd â'r gallu i gynnal cyfoeth ac amrywiaeth o fywyd gwyllt, a hen berllannau sefydlog yn cael eu cadw a'u rheoli gyda golwg ar fywyd gwyllt a chreu rhai newydd i ddarparu perllannau'r dyfodol.

## *Datganiad Cryno*

Mae'r cynllun gweithredu cyfunol hwn ar gyfer cynefinoedd yn cynnwys: ffiniau caeau traddodiadol, cyrion caeau âr, a pherllannau traddodiadol.

Mae ffiniau caeau'n cynnwys gwrychoedd, cloddiau pridd a rhai ag wyneb cerrig (wedi'u hadeiladu yn null cloddiau A Sir Benfro) gyda neu heb wrychoedd. Maen nhw'n aml yn cynnal cyfoeth ac amrywiaeth o flodau ac anifeiliaid gwylltion. Mae rhai o'r rhain yn dyddio'n ôl i gyfnodau canoloesol ac iddyn nhw arwyddocâd archeolegol a diwylliannol.

Mae'r rheini a geir mewn ardaloedd mewndirol cysgodol yn cynnal planhigion cyrion coetiroedd megis gludlys coch, serenllys mawr, briallu, clychau'r gog a choed aeddfed megis y dderwen, onnen a chollen. Yng ngogledd Sir Benfro, mae hen gloddiau pridd a cherrig yn cynnal rhywogaethau megis clychau'r bugail, grug, llus ac eithin y mynydd. Mae cloddiau pridd a cherrig sy'n wynebu'r arfordir yn cynnal glaswelltir clogwyni gyda gludlys arfor, seren y gwanwyn, clustog Fair a'r blucen felen. Mewn ardaloedd sy'n llawer mwy agored i'r gwynt, fe welir yn aml enghreifftiau hynafol o'r ddraenen wen ac eithin â'u ffurfiau wedi'u saernïo gan y gwynt, yn nodwedd atgofus o'r dirwedd ac yn ysbrydoliaeth i artistiaid.

Mae cyrion caeau âr yn cynnwys tir braenar, a reolir fel pentiroedd cadwraeth, neu eu gadael fel cyrion glaswelltog heb eu haredig. Mae'r rhain yn bwysig ar gyfer amrywiaeth o chwyn âr megis bulwg yr ŷd, dinod blynyddol a mwsoglau megis mwsogl di-farf ymledol, barf cnapiau hirion a mwsogl minfoel dail atblyg.

Bellach mae caeau âr yn cynnwys llawer o rywogaethau Prydain sydd dan fygythiad. Yn hanesyddol, bu gan Sir Benfro ganran uchel o dir âr Cymru.

Mae llawer o blanhigion âr yn dangos ymlyniad cryf at safleoedd neu ranbarthau unigol ac i briddoedd neu gynlluniau rheoli neilltuol ac mae ganddyn nhw'r gallu i adeiladu stôr mawr a pharhaus o hadau. Mae i'r

rhan fwyaf o rywogaethau'r gallu rhyfeddol i ail-gytrefu safleoedd coll o had cwsg a gladdwyd, o'u rheoli mewn dull ystyrlon.

Fe ddylai ymdrechion cadwraeth anelu at gynnal yr amrywiaeth rhanbarthol hwn trwy dargedu rheolaeth briodol mewn ardaloedd lle mae banc hadau sylweddol yn debygol o fod yn bresennol. Dylid osgoi'r defnydd o stoc o blanhigion âr sydd wedi'u trin.

Mae ffiniau caeau traddodiadol a chyrion caeau âr fel ei gilydd yn cynnig cyswllt hanfodol rhwng cynefinoedd, ac maen nhw hefyd yn allweddol i gynnal poblogaethau iach o famaliaid, adar ac ymlusgiaid bychain, ynghyd â thrychfilod megis y glöyn byw, brithribin brown. Mae cloddiau gwrych mawr, aeddfed yn arbennig o bwysig fel cynefin chwilota am fwyd i anifeiliaid a thrywydd hediadau i ystlumod. Maen nhw'n hanfodol i gynnal bioamrywiaeth iach, llawn prysurdeb yn Sir Benfro.

Mae perllannau traddodiadol wedi'u diffinio ar gyfer pwrpasau cynefinoedd sy'n cael blaenoriaeth fel perllannau sy'n cael eu rheoli mewn dull dwysedd isel, mewn gwrthgyferbyniad i berllannau sy'n cael eu rheoli'n ddwys ar gyfer cynhyrchu ffrwythau trwy ychwanegu cemegau megis plaladdwyr a gwrteithiau anorganig, torri glaswellt llawr y berllan yn aml yn hytrach na'i bori neu'i dorri ar gyfer gwair, a phlannu coed ffrwythau ar ffurf bychain neu fel llwyni, sydd o ddwysedd uchel ac yn fyrhoedlog. Ceir mwy o wybodaeth yn: Disgrifiadau Cynefin â Blaenoriaeth Cynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth. BRIG (gol. Ant Maddock) 2008. http://jncc.defra.gov.uk/Docs/UKBAP_BAPHabitats-56-TraditionalOrchards.doc

Mae'r hen berllannau hyn yn cynnal brithwaith o gynefinoedd sy'n darparu bwyd a chysgod i gannoedd o rywogaethau o fywyd gwyllt. Mae presenoldeb pren marw a phydredig yn arbennig o bwysig i anifeiliaid di-asgwrn-cefn saprosilig (yn ddibynnol ar bren marw), y ceir cannoedd lawer ohonyn nhw'n bresennol mewn cynefinoedd perllannau. Mae sawl rhywogaeth o adar yn defnyddio perllannau, rhai'n bwydo ar y ffrwyth, tra bo eraill yn bwydo ar anifeiliaid di-asgwrn-cefn sy'n cael eu denu yno gan y pail, neithdar a'r pren pydredig.

Mae rhywogaethau lawer o gen a ffyngau yn gysylltiedig â pherllannau. Mae sawl ffwng a chen yn anoddefgar o gemegau a ddefnyddir mewn amaethyddiaeth fodern ac felly'n ffynnu mewn perllannau a reolir yn y dull traddodiadol.

Mae cennau i'w cael ar foncyffion a changhennau coed perllan tra bo ffyngau'n cael eu cysylltu â phren pydredig neu'r glaswelltir sydd o dan y coed. Gall yr hen laswelltiroedd hyn fod yn gyforiog o blanhigion ac yn gartref i amrywiaeth o ffyngau'r glaswelltir, yn enwedig felly os bu iddyn nhw gael eu rheoli'n draddodiadol trwy bori ag anifeiliaid megis defaid. Bydd hen laswelltir sydd wedi cael llonydd yn ychwanegu diddordeb bioamrywiol i'r berllan.

Cysgodir rhai perllannau gan hen ffiniau carreg sydd hefyd yn gallu bod yn bwysig i gennau, anifeiliaid di-asgwrn-cefn a mamaliaid bychain.

Ceir enghraifft dda o berllan yn Sir Benfro yn St Brides; mae gan ardd goetir Colby hefyd berllan fach, felly hefyd sawl un o stadau'r hen blastai neu hen ffermydd o faint.

---

## Targedau'r cynllun

***Cod*** ***Targed***

Fferm01ME Cynnal maint y cynefinoedd sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn. Dydyn ni ddim yn gwybod beth ydy maint y cynefinoedd hyn ond ein nod ydy cael dim colled net dros gyfnod amhenodol. Lle rhoddir ffigyrau, dyma ydy'r lleiafswm sy'n hysbys.

***Nod:*** Ar gyfer Cyrion Caeau Âr: Cynnal 34 Hectar erbyn 01/02/3011
***Cyfanswm a gyflawnwyd hyd yn hyn:*** 0 Hectar

***Nod:*** Ar gyfer Perllannau Traddodiadol: Cynnal 1 Safle erbyn 01/02/3011
***Cyfanswm a gyflawnwyd hyd yn hyn:*** 0 Safle

***Cod*** ***Targed***

Fferm04EX Ehangu neu ymestyn yr ardal / hyd y cynefinoedd a gynhwysir yn y cynllun hwn. Ein dyhead ydy creu'r cynefinoedd hyn lle bo'n briodol, fodd bynnag, fe gymer hi sawl blwyddyn i'w sefydlu i'u un lefel o ddiddordeb bioamrywiaeth ag sydd gan ffin cae neu berllan draddodiadol.

***Nod:*** Ar gyfer Ymylon Caeau Âr: Ehangu 1 Safle erbyn 01/12/2011
***Cyfanswm a gyflawnwyd hyd yn hyn:*** 0 Safle

---

## Camau'r cynllun

***Cod*** ***Camau***

Fferm01Me01 Cynnal maint ffiniau'r caeau trwy reolaeth briodol (e.e. trefn torri) er mwyn sicrhau eu bod o ansawdd uchel, yn cael eu mesur trwy'r bioamrywiaeth mae modd iddyn nhw'i gynnal.

***Statws:*** Anhysbys

***Dyddiadau:*** 01/01/2001 - Presennol

***Sefydliad(au)***

Rôl Arweiniol:
Partneriaeth

Bioamrywiaeth
Sir Benfro

***Lleoliad(au)***

Sir Benfro (Sir)

| ***Cod*** | ***Camau*** |
| --- | --- |
| Fferm01Me02 | Darparu arweiniad i gontractwyr yr awdurdod lleol ynglŷn â'r arferion gorau i reoli cloddiau gwrychoedd. Datblygu a hyrwyddo gyda phartneriaid Cod Arferion Gorau ar reoli ffiniau caeau traddodiadol yn Sir Benfro, gan ymgorffori taflenni cynghori cyfredol sy'n berthnasol yn lleol. Annog y defnydd o'r Cod Arferion Gorau gan yr holl bartneriaid. |

***Statws:*** Heb ddechrau

***Dyddiadau:*** 01/10/2011 - Presennol

***Sefydliad(au)***

Rôl Arweiniol: Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro

***Lleoliad(au)***

Sir Benfro (Sir)

| ***Cod*** | ***Camau*** |
| --- | --- |
| Fferm01ME02a | Cefnogi cyrsiau hyfforddiant ar gynnal a chadw ac adeiladu ffiniau caeau traddodiadol. Hyrwyddo sgiliau crefftwyr proffesiynol ymysg tirfeddianwyr/rheolwyr sy'n ceisio cynnal a chadw, adfer neu ail-greu ffiniau caeau traddodiadol yn Sir Benfro. Hyrwyddo cyrsiau sydd ar gael sydd wedi'u hanelu at hyfforddi gweithwyr proffesiynol mewn technegau rheoli cefn gwlad traddodiadol trwy daflen newyddion PBSB. |

***Statws:*** Heb ddechrau

***Dyddiadau:*** 01/01/2007 - Presennol

***Sefydliad(au)***

Rôl Arweiniol: Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro

***Lleoliad(au)***

Sir Benfro (Sir)

| ***Cod*** | ***Camau*** |
| --- | --- |
| Fferm01Me03 | Cynnal a chadw maint ffiniau caeau âr trwy reolaeth briodol. Sicrhau bod ffiniau caeau un ai'n hunanhadu neu'n cael eu hadu gyda phlanhigion ymylon tir âr nodweddiadol. Annog ffermwyr i ystyried cynlluniau amaeth-amgylcheddol, er mwyn dangos iddyn nhw'r rhannau arwyddocaol o'r fferm a pha opsiynau fase'n gweddu orau i'r prif rywogaethau. |

***Statws:*** Anhysbys

***Dyddiadau:*** 01/10/2011 - Presennol

***Sefydliad(au)***

Rôl Arweiniol: Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro

***Lleoliad(au)***

Sir Benfro (Sir)

| ***Cod*** | ***Camau*** |
|---|---|
| Fferm01Me04 | Cynnal a chadw maint perllannau trwy reolaeth briodol ac annog tyfu mathau Cymreig o ffrwythau. |

***Statws:*** Anhysbys

***Dyddiadau:*** 01/10/2011 - Presennol

***Sefydliad(au)***

Rôl Arweiniol: Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro

***Lleoliad(au)***

Sir Benfro (Sir)

| ***Cod*** | ***Camau*** |
|---|---|
| Fferm02Ac01 | Osgoi colli bioamrywiaeth trwy reoli rhywogaethau goresgynnol. |

***Statws:*** Heb ddechrau

***Dyddiadau:*** 01/10/2011 - Presennol

***Sefydliad(au)***

Rôl Arweiniol: Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro

***Lleoliad(au)***

Sir Benfro (Sir)

| ***Cod*** | ***Camau*** |
|---|---|
| Fferm02AC02 | Sicrhau rheolaeth bositif ar gyfer bioamrywiaeth o fewn cynefinoedd tir amaeth trwy ddarparu taliadau cytundebau rheoli. |

***Statws:*** Heb ddechrau (yn y cyfnod hwn)

***Dyddiadau:*** 02/02/2011 - Presennol

***Sefydliad(au)***

Rôl Arweiniol: Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro

***Lleoliad(au)***

Sir Benfro (Sir)

| ***Cod*** | ***Camau*** |
|---|---|
| Fferm04EX01 | Adnabod safleoedd addas lle gellir adfer / ail-greu'r cynefinoedd a restrir yn y cynllun hwn. |

***Statws:*** Heb ddechrau (yn y cyfnod hwn)

***Dyddiadau:*** 01/01/2011 - Presennol

***Sefydliad(au)***

Rôl Arweiniol: Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro

***Lleoliad(au)***

Sir Benfro (Sir)

| ***Cod*** | ***Camau*** |
|---|---|
| Fferm04EX02 | Creu ardaloedd newydd o'r cynefinoedd a restrir yn y cynllun hwn ar safleoedd addas. |

***Statws:*** Ar waith (ar amser)

***Dyddiadau:*** 01/01/2011 - Presennol

***Sefydliad(au)***

| | |
|---|---|
| | Rôl Arweiniol: Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro |
| Rôl gefnogol: | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |

***Lleoliad(au)***

Sir Benfro (Sir)
Fferm Trefrane, Stad Southwood (Lleoliad lleol - Cymru D / S Wales - Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol
Sir Benfro (LBAP)

***Nod:*** Ar gyfer Ymylon Caeau Âr ar Fferm Trefrane, Stâd Southwood: Ehangu 1 Safle erbyn 01/03/2010
***Cyfanswm a gyflawnwyd hyd yn hyn:*** 1 cyflawnwyd, 0 ar waith, aseswyd 16/12/2010

***Cofnodion cynnydd diweddaraf pob sefydliad sy'n cofnodi:***

***Sefydliad sy'n cofnodi:*** Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro

***Enw Cyswllt:*** Bethan Cox (Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth)

***Cyfnod cofnodi:*** 01/01/2001 - 04/03/2010

***Sefydliad cofnodi:*** Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

***Enw cyswllt:*** Andrew Tuddenham

***Cyfnod cofnodi:*** 25/02/2010 - 07/12/2010

***Cynnydd:***
Ffensio, plannu gwrychoedd, wedi ymgymryd â thyfu a hadu ar wahanol raddfeydd. Cwblhawyd arolygon adar a phlanhigion.

| ***Cod*** | ***Camau*** |
|---|---|
| Fferm05AW01 | Annog cynlluniau sy'n hyrwyddo prynu cynnyrch lleol a chynlluniau sy'n marchnata cynnyrch o safon gadwraethol o dir a reolir ar gyfer bioamrywiaeth. |

***Statws:*** Heb ddechrau (yn y cyfnod hwn)

***Dyddiadau:*** 02/02/2011 - Presennol

***Sefydliad(au)***

Rôl Arweiniol: Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro

***Lleoliad(au)***

Sir Benfro (Sir)

| ***Coe*** | ***Camau*** |
|---|---|
| Fferm06Mis01 | Adnabod maint a lleoliad perllannau yn Sir Benfro. Gweithio gyda fforwm coedlannau Sir Benfro a chynghorau cymuned i hel gwybodaeth. |

***Statws:*** Heb ddechrau (yn y cyfnod hwn)

***Dyddiadau:*** 02/02/2011 - Presennol

***Sefydliad(au)***

Rôl Arweiniol: Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro

***Lleoliad(au)***

Sir Benfro (Sir)

| ***Cod*** | ***Camau*** |
|---|---|
| Fferm06Mis02 | Cwblhau arolygon safleoedd gan ddefnyddio'r fethodoleg safonol a gynhyrchir gan Ymddiriedolaeth y Bobl dros Rywogaethau mewn Perygl (PTES). Sefydlu gwaelodlin o rywogaethau perllannau traddodiadol: e.e. cen, ffyngau ac adar. |

***Statws:*** Anhysbys

***Dyddiadau:*** 01/10/2011 - Presennol

***Sefydliad(au)***

Rôl Arweiniol: Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro

***Lleoliad(au)***